Cross Party Group Clean Air Act for Wales
Grŵp Trawsbleidiol Deddf Aer Glân i Gymru
**Microsoft Teams**

**12 Mehefin 2023, 10am-11am**

**Yn bresennol:**

**Aelodau o'r Senedd:**
Huw Irranca-Davies AS (Cadeirydd)
Jane Dodds AS
Altaf Hussain AS
Julie James AS
Carolyn Thomas AS
Lee Waters AS

**Rhai nad ydynt yn Aelodau o'r Senedd**

Daniel Arabella
Jason Bale
Ioan Bellin
Huw Brunt
Daniel Butler
Deborah Butler
Huw Brunt
Joseph Carter
Ciaran Donaghy
Haf Elgar
Kate Forster
Roger Herbert
Y Cynghorydd Neil Lewis
Joshua James
Y Cynghorydd Keith Henson
Yr Athro Paul Lewis
Y Cynghorydd Rhys Livesy
Steve Manning
Hannah Morgan
Rhian Novell-Philips
Gwenda Owen
Olwen Spiller
Rhian Williams
Y Cynghorydd Aled Vaughan

1. **Croeso a chyflwyniad – Huw-Irranca-Davies AS**

Croesawodd Huw Irranca-Davies AS y rhai a oedd yn bresennol i'r cyfarfod, a gwnaed cyflwyniadau i Aelodau o'r Senedd.

2. **Cofnodion y cyfarfod diwethaf – Huw-Irranca Davies AS**

Cymeradwywyd cofnodion yn ffurfiol ar ôl y cyfarfod.

3. **Materion sy'n codi – Joseph Carter, Awyr Iach Cymru**

Roedd mater yn codi yn dilyn cyflwyniad Rebekah Ahmed ar ysgolion. Yn lle hynny, penderfynwyd gweithio drwy staff ymgysylltu ysgolion Sustrans Cymru ar gyfer Diwrnod Aer Glân.

4. **Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol – Ethol Is-gadeiryddion ac Ysgrifenyddiaeth y Grŵp Trawsbleidiol. Enw a chylch gorchwyl.**

Cafwyd enwebiadau gan **Huw Irranca-Davies AS** fel Cadeirydd, **Delyth Jewell AS** a **Janet Finch-Saunders AS** fel Is-gadeiryddion, ac Awyr Iach Cymru fel Ysgrifenyddiaeth.

Cadeirydd – Cynigiodd **Carolyn Thomas AS Huw Irranca-Davies AS** a chafodd ei eilio gan **Altaf Hussain AS**.
Is-gadeiryddion – Cynigiodd **Altaf Hussain AS Delyth Jewell AS** a **Janet Finch-Saunders AS** a chawsant eu heilio gan **Carolyn Thomas AS**.
Ysgrifenyddiaeth – Cynigiodd Awyr Iach Cymru **Carolyn Thomas AS** a chafodd ei heilio gan **Altaf Hussain AS**.

Enw – Gwnaethom gytuno i newid yr enw o Grŵp Trawsbleidiol ar Ddeddf Aer Glân i Gymru, i Grŵp Trawsbleidiol ar Aer Glân. Gwnaethom gytuno i newid y diben o 'Sicrhau cefnogaeth wleidyddol ar gyfer deddf aer glân i Gymru' i 'Codi ymwybyddiaeth o effaith llygredd aer a sicrhau cefnogaeth wleidyddol i gamau i ddiogelu'r amgylchedd a gwella iechyd y cyhoedd.'

5. **Joseph Carter, Awyr Iach Cymru: Bil yr Amgylchedd (Ansawdd Aer a Seinweddau)**

Gwahoddodd **Huw Irranca-Davies AS** Joseph Carter i roi cyflwyniad ar Fil yr Amgylchedd o safbwynt Awyr Iach Cymru.

Atgoffodd **Joseph** bobl o'r gofynion gwreiddiol a wnaeth Awyr Iach Cymru yn 2017 a dweud eu bod wrth eu bodd bod cynifer o'r elfennau hyn yn cael eu cyflawni drwy'r Bil. Dyma hwy:

- Strategaeth aer glân drawslywodraethol, gan gynnwys:
    - Rhwydwaith monitro ac asesu annibynnol
    - Bwrdd Cynghori Cenedlaethol
    - Parthau Aer Glân, gan gynnwys opsiynau codi tâl yn y prif ddinasoedd
    - Cynllun Aer Glân Blynyddol ar gyfer pob awdurdod lleol (ar y cyd â Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus) gyda mesurau rheoli
    - Mae'n rhaid i Gynlluniau Datblygu Strategol ac awdurdodau trafnidiaeth rhanbarthol ystyried ansawdd aer
- Cronfa Aer Glân i ariannu camau llywodraeth leol
- Mwy o fesur llygredd aer ger ysgolion ac adrodd arno
- Gwella monitro llygredd, ymgyrchoedd ymwybyddiaeth a rhybuddion iechyd y cyhoedd
- Deddf Aer Glân i Gymru, gan gynnwys:

Healthy Air
Awyr Iach
Cymru

- Ymgorffori canllawiau ansawdd aer Sefydliad Iechyd y Byd yn y gyfraith;
- Gorfodi Llywodraeth Cymru i lunio strategaeth ansawdd aer statudol bob 5 mlynedd;
- Darparu dyletswydd statudol ar awdurdodau lleol i fonitro ac asesu llygredd aer yn briodol, a chymryd camau yn ei erbyn;
- Cyflwyno 'hawl i anadlu' lle y mae'n ofynnol i awdurdodau lleol hysbysu grwpiau sy'n agored i niwed pan fydd lefelau penodol yn cael eu torri.

Mae Awyr Iach Cymru yn cefnogi Bil yr Amgylchedd ond yn credu bod meysydd lle y gellid ei gryfhau a'i wella.

- **Targedau ansawdd aer newydd** – Bydd gweinidogion yn cael pwerau i osod targedau ansawdd aer newydd, gan ein helpu i leihau llygredd aer a chael yr hawl i anadlu aer glân. Mae Awyr Iach Cymru yn croesawu'r ymrwymiad yn y Bil i geisio cyngor perthnasol ac i roi sylw i wybodaeth wyddonol, a'r cyfeiriadau at ganllawiau newydd Sefydliad Iechyd y Byd yn y Memorandwm Esboniadol, ond yn poeni nad oes dim yn y Bil i sicrhau y bydd targedau'n cael eu gosod yn gyson â chanllawiau Sefydliad Iechyd y Byd, yn unol â'r ymrwymiad. Mae'n siomedig bod a1(1) yn datgan y 'caiff Gweinidogion… osod targedau hirdymor', ond bod a2(1) yn datgan bod yn 'rhaid' iddynt wneud hynny. Hoffai i'r Bil gofnodi yn y gyfraith ymrwymiad Llywodraeth Cymru i ddeddfu i gyflawni terfynau Sefydliad Iechyd y Byd ar lygredd aer a rhoi i ddinasyddion yr hawl i anadlu aer glân.

- **Hyrwyddo ymwybyddiaeth** – Mae Awyr Iach Cymru yn gefnogol i'r adran hon a'r gyllideb £500,000 a ddyrannwyd iddi. Dylai Llywodraeth Cymru gynnal ymgyrchoedd hysbysiadol wedi'u targedu ar effeithiau llygredd aer a llosgi ar yr amgylchedd ac iechyd, yn ogystal â darparu cyngor a chymorth i gyflenwyr ac aelwydydd ar sut i leihau cynnwys lleithedd pren. Wrth hyrwyddo ymwybyddiaeth am lygredd aer, dylai Llywodraeth Cymru hefyd ymrwymo i hyrwyddo ymwybyddiaeth o atebion newid ymddygiad a all leihau llygredd aer. Yn yr un modd ag y bydd yn ofynnol i gyrff cyhoeddus roi sylw dyladwy i'r effaith ar ansawdd aer, dylai codi ymwybyddiaeth o lygredd aer fod yn gysylltiedig â hyrwyddo ymddygiadau iach i wella ansawdd ein haer megis teithio llesol a'r angen am newid dulliau teithio.

- **Strategaeth Ansawdd Aer Genedlaethol** - Bydd angen i Weinidogion ddatblygu strategaeth ansawdd aer 5 mlynedd newydd. Ar hyn o bryd, mae ganddynt Gynllun Aer Glân, ond bydd ei wneud yn strategaeth statudol a ddiffinnir yn y gyfraith yn ei gryfhau. Mae Awyr Iach Cymru yn croesawu'r cynnig hwn, ond yn pryderu am y ffordd y bydd yn cael ei gyflawni. Mae'r Bil yn ceisio diwygio Deddf yr Amgylchedd 1995 (adran 80) er mwyn datgan mai Gweinidogion Cymru yn y Senedd, yn hytrach nag Ysgrifennydd Gwladol a Senedd y DU, a fyddai bellach â'r pwerau i wneud 'strategaeth ansawdd aer genedlaethol' yng Nghymru. Roedd y ddarpariaeth hon yn bosibl oherwydd bod Deddf yr Amgylchedd 2021 gan Senedd y DU wedi diwygio'r un adran i bennu y byddai Llywodraeth y DU yn defnyddio'r pŵer hwn i wneud strategaeth ansawdd aer genedlaethol. Mae hyn yn ymddangos yn ffordd anarferol iawn o ddrafftio Bil ac mae'n pryderu am ganlyniadau annisgwyl. Felly, hoffai i'r adran hon gael ei hailddrafftio fel ei bod yn amlwg bod Bil yr Amgylchedd (Ansawdd Aer a Seinweddau) yn rhoi pwerau clir i Weinidogion Cymru ddatblygu strategaeth aer glân gyda phroses adolygu glir a ddiffinnir yn y Bil. Mae adran 22 yn darparu templed defnyddiol y gallai adran 9 ddiwygiedig ei ddilyn.

- **Llygredd aer lleol** - Bydd y Bil yn newid y system y mae'r cyngor lleol yn ei defnyddio i fonitro llygredd aer a chymryd camau i'w leihau. Ar hyn o bryd, caiff cynghorau ddatgan ardaloedd rheoli ansawdd aer lle y mae mannau problemus o ran llygredd, ond yna ni chânt gymryd llawer o gamau i fynd i'r afael ag ef. Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod yn y Memorandwm Esboniadol (paragraff 3.127) nad yw'r system bresennol yn gweithio, felly mae adran 14 wedi'i chynllunio i fynd i'r afael â'r materion hyn. Mae Awyr Iach Cymru yn croesawu'r angen i awdurdodau lleol wneud adolygiad blynyddol o ansawdd aer lleol yn ofynnol, a'r angen i ymrwymo i ddyddiad cydymffurfio y cytunir arno â Llywodraeth Cymru. Fel y mae paragraff 3.133 o'r Memorandwm Esboniadol yn datgan, mae'r fframwaith presennol ond yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol ddatblygu camau 'tuag at' gydymffurfedd. Gallai hyn olygu bod yr un ardaloedd rheoli ansawdd aer yn parhau am flynyddoedd.

- **Rheoli mwg** - Bydd y Bil yn newid troseddau rheoli mwg i fod yn droseddau sifil, gan ganiatáu i gynghorau ddyroddi dirwyon. Y gobaith yw y bydd hyn yn gwella gorfodaeth ac ymwybyddiaeth well bod llosgi pren neu lo'n wael ar gyfer llygredd aer ac yn beryglus i bobl â chyflyrau iechyd sy'n bodoli eisoes. Mae Awyr Iach Cymru eisiau tanwydd gwell, teclynnau gwell, gwybodaeth well a newid i ffwrdd o losgi domestig, ond nid ydynt yn siŵr a yw'r Bil yn cyflawni hynny. Nid yw'n glir a yw Llywodraeth Cymru eisiau ehangu ardaloedd rheoli mwg a diogelu iechyd y cyhoedd ai peidio. Ar hyn o bryd, dim ond 4 awdurdod lleol sy'n gweithredu ardaloedd rheoli mwg ac nid yw'r Memorandwm Esboniadol na'r Bil yn ei gwneud yn glir a fyddai Llywodraeth Cymru yn annog awdurdodau lleol i wneud cais amdanynt. Hoffai Awyr Iach Cymru i'r Bil gyflwyno cyfyngiadau rheoli mwg ar draws y genedl gyfan, gan roi'r amddiffyniad y mae ar bawb ei angen rhag peryglon llosgi'r tanwyddau mwyaf llygrol. Gallai rheoliadau ddarparu ar gyfer system o esemptiadau i bobl sy'n byw mewn ardaloedd anghysbell iawn, ond dylid lleihau llosgi domestig yng ngweddill Cymru a defnyddio tanwyddau sych/di-fwg yn unig. Mae hefyd yn pryderu ei bod yn ymddangos bod adran 16 ac atodlen 1, i raddau helaeth, yn dyblygu'r ddeddfwriaeth bresennol ar gyfer Lloegr yn Neddf Aer Glân 1993, yn hytrach na datblygu rhywbeth pwrpasol ar gyfer Cymru.

- **Codi tâl ar ddefnyddwyr cefnffyrdd** - Mae adrannau 19 ac 20 yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru gyflwyno gwefru cerbydau ar ddefnyddwyr cefnffyrdd lle y mae llygredd aer yn parhau i fod yn uchel. Nid yw'r Bil yn cwmpasu parthau aer glân na threfi a dinasoedd oherwydd nad oes gan y Senedd gymhwysedd deddfwriaethol yn y maes hwn. Mae gan Weinidogion Cymru bŵer eisoes i gyflwyno parthau aer glân oherwydd Deddf Trafnidiaeth 2000 gan Senedd y DU. Mae codi tâl ar ddefnyddwyr cerbydau drwy barthau aer glân wedi'i ddefnyddio i leihau llygredd aer mewn dinasoedd ar draws Ewrop ac yn Lloegr. Llundain sydd â'r un mwyaf llwyddiannus gyda buddion yn cynnwys gostyngiad bron 50 y cant mewn llygredd gwenwynig nitrogen deuocsid yng nghanol Llundain. Mae Awyr Iach Cymru yn cefnogi parthau aer glân a chodi tâl ar ddefnyddwyr cerbydau, ond nid yw'n siŵr a fydd codi tâl ar ddefnyddwyr cefnffyrdd yn cael yr effaith a ddymunir. Mae parth aer glân yng nghanol dinas yn gweithio ar y sail y gall pobl ddefnyddio trafnidiaeth gyhoeddus neu ddull teithio llesol i fynd i ganol y ddinas yn lle ceir. Efallai na fydd parth aer glân cefnffyrdd yn gweithio cystal gyda'r risg y dargyfeirir traffig a llygredd aer i ffyrdd preswyl, llai o faint, yn hytrach na mwy o ddefnydd o drafnidiaeth gyhoeddus.

- **Segura cerbyd** – Mae Awyr Iach Cymru yn croesawu'n gryf gwelliannau a.21 i Ddeddf yr Amgylchedd i wneud segura llonydd yn drosedd o dan a.42 o Ddeddf Traffig Ffyrdd 1988.

Bob munud, mae car segur yn cynhyrchu digon o allyriadau egsôst i lenwi 150 o falwnau â chemegion niweidiol, gan gynnwys seianid, nitrogen deuocsid a PM2.5. Fodd bynnag, byddai'n croesawu eglurder ynghylch sut y mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl i gosbau am segura llonydd gael eu dyroddi, a pha gyrff y bydd yn ofynnol iddynt orfodi'r drosedd.

- **Seinweddau** - Seinweddau - mae adrannau 22-24 yn ymwneud â'r ardal seinwedd newydd a arweiniodd at ailenwi'r Bil. Bydd y Bil yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion gyhoeddi strategaeth seinweddau. Mae Awyr Iach Cymru yn credu bod hyn yn ychwanegiad cadarnhaol a fydd yn mynd i'r afael â math o lygredd sy'n effeithio ar y clustiau, yn ogystal ag iechyd meddwl, dysgu, y system gardiofasgwlaidd, ac y gall effeithio ar ddementia a gweithrediad gwybyddol.

6. **Julie James AS: Bil yr Amgylchedd (Ansawdd Aer a Seinweddau)**

Croesawodd **Huw Irranca-Davies AS Julie James AS** a **Lee Waters AS** i'r cyfarfod. Dechreuodd **Julie** drwy ddweud wrth bawb y byddai Lee yn cymryd yr awenau ar gyfer Cyfnod 2 o Fil yr Amgylchedd a'r tu hwnt.

Dywedodd ei bod yn croesawu'r adborth gan randdeiliaid a phwyllgorau'r Senedd yng Nghyfnod 1. Nid yw'r Bil yn cynnwys popeth a'i nod yw cyd-fynd â deddfwriaeth arall a strategaethau eraill.

Esboniodd **Julie** ei gwrthwynebiad i osod targedau ar wyneb y Bil. Roedd yn teimlo y byddai'n ei gwneud yn anodd eu diwygio gyda threigl amser a thynnodd sylw at enghreifftiau eraill lle y rhoddwyd cynnig ar hyn mewn meysydd polisi eraill ac nad yw wedi gweithio.

Roedd yn deall y dadleuon ynghylch gwneud gwelliannau teithio llesol i'r Bil, ond roedd yn poeni y gallai hyn gulhau cwmpas y ddeddfwriaeth ac roedd pryder y gallai hyn fod y tu allan i gwmpas y Bil.

Siaradodd am yr adrannau cefnffyrdd, gwrthsegura ac ansawdd aer lleol fel meysydd lle y bu llawer o drafod mewn pwyllgorau, er bod y cynigion seinweddau wedi cael derbyniad da.

Gofynnodd **Carolyn Thomas AS** gwestiwn am gerbydau adeiladu mawr a'r llygredd aer maent yn ei gynhyrchu, ac un ar goelcerthi.

Dywedodd **Julie James AS** y dylid rheoli llygredd o waith adeiladu drwy orfodi cynllunio a rhoi cyfyngiadau ar y datblygwyr yn ystod y Bil. Dywedodd nad oedd coelcerthi'n ymddangos yn uniongyrchol yn y Bil, ond y byddai'r newidiadau i reolau ar barthau rheoli ysmygu yn eu gwneud yn haws i'w gorfodi. Dywedodd y byddai ymgynghoriad newydd ar stofiau aml-danwydd. Pe baent yn deddfu nawr, byddai'n ddrud iawn i bobl â'r stofiau hyn eu hôl-osod, felly maent am iddo fod yn gymesur.

Gofynnodd **Altaf Hussain AS** sut y byddai'r Gweinidog yn mynd i'r afael â thagfeydd a llygredd aer o amgylch ysgolion.

Dywedodd **Julie James AS** y byddai'r Bil yn caniatáu i awdurdodau lleol awdurdodi staff i orfodi gwrth-segura. Ni fyddai'n rhaid i swyddogion gorfodi presennol wneud hynny, a gallai staff ysgol presennol wneud hynny. Mae'n gobeithio y bydd modd addysgu pobl i beidio â segura.

Siaradodd **Lee Waters AS** am gynlluniau strydoedd ysgolion a byddai'n annog mwy o awdurdodau lleol i gyflwyno hyn. Mae Llywodraeth Cymru wedi buddsoddi mewn gwefru cerbydau trydan.

Gofynnodd **Keith Henson** am amodau cynllunio. A fyddai cyfle am fwy o dai fforddiadwy mewn cynghorau fel Ceredigion, lle y mae'r aer yn lanach.

Dywedodd **Julie James AS** ei bod yn annog cynghorau lleol i adolygu eu CDLl i edrych ar faint o fannau parcio sydd wedi'u cynnwys mewn datblygiadau a sut y mae trafnidiaeth gyhoeddus yn cael ei chynnwys mewn datblygiadau. Dywedodd y dylai'r cynlluniau trafnidiaeth rhanbarthol helpu hefyd.

Gofynnodd **Gwenda Owen** am y ddyletswydd i hyrwyddo aer glân. Sut rydym yn sicrhau bod hyn yn digwydd fel y cynlluniwyd? Gwnaeth gymariaethau â'r Ddeddf Teithio Llesol.

Dywedodd **Julie James AS** nad oedd am gyfyngu hynny i deithio llesol. Bydd canllawiau a disgresiwn lleol yn dibynnu ar anghenion y gymuned benodol.

Dywedodd **Lee Waters AS** eu bod yn cydymdeimlo â'r pryderon a godwyd ynghylch teithio llesol. Y perygl yw, os oes arnom ddyletswydd i hyrwyddo teithio llesol ym Mil yr Amgylchedd, mai dim ond yng nghyd-destun ansawdd aer y bydd cyrff cyhoeddus yn gallu hyrwyddo teithio llesol, ac nid dyna'r hyn rydym am ei gyflawni. Mae'n siarad â chyfreithwyr i weld yr hyn y gellir ei wneud.

Gofynnodd **Steve Manning** pa gyfleoedd y bydd y Bil yn eu rhoi i ddefnyddio cyfraniadau a106 fel ffordd o gymryd camau yn erbyn llygredd aer. Gallai hyn ychwanegu cyllid i gefnogi mentrau lleol.

Dywedodd **Julie James AS** y byddai ansawdd aer, ar ôl i'r ddeddfwriaeth gael ei phasio, yn un o'r ystyriaethau wrth ddatblygu cytundeb a106 a'r hyn y gall ei gynnwys. Mae pryder am ddiffyg capasiti mewn awdurdodau lleol, felly mae Llywodraeth Cymru yn awyddus ei bod yn rhannu arbenigedd cynllunio a chyfreithiol.

Gofynnodd **Haf Elgar** am Fil Cyfraith yr UE a Ddargedwir a sut rydym yn diogelu deddfwriaeth aer glân yng Nghymru. Os yw'n gyfreithiol bosibl, a allem ddatblygu deddfwriaeth fwy hunangynhwysol yn hytrach na chyfeirio at ddeddfwriaeth Lloegr i'n diogelu ein hunain.

Dywedodd **Julie James AS** fod hyn yn bryder i Lywodraeth Cymru. Maent yn ystyried cyflwyno Bil i ddiogelu Cymru yn benodol rhag effaith Bil Cyfraith yr UE a Ddargedwir neu a oes angen gwneud hynny ym mhob Bil unigol. Maent yn treulio llawer o amser yn olrhain yr hyn y mae Llywodraeth a Senedd y DU yn ei wneud yn y maes hwn. Eglurodd fod tair 'bwced' – dargadw, dirymu a diwygio. Mae angen gwylio'n barhaus i ba fwced y mae eich deddfwriaeth yn mynd. Gwnaethom ddarganfod ystod eang o gyfraith diogelu'r amgylchedd a roddwyd yn y 'fwced dirymu' a oedd yn syndod hyd yn oed i Ysgrifennydd Amgylchedd y DU. Os bydd elusennau, cyfreithwyr, unigolion yn ymwybodol o gyfreithiau y mae Bil Cyfraith yr UE a Ddargedwir yn effeithio arnynt, rhowch wybod i Lywodraeth Cymru.

Diolchodd **Huw Irranca-Davies AS** i **Julie James AS** a **Lee Waters AS** am fod yn bresennol a diolchodd iddynt am eu holl waith ar y Bil ac ar draws y portffolio newid hinsawdd.

7. **Unrhyw fater arall**

Nid oedd unrhyw fater arall i'w drafod.

**Y cyfarfod nesaf**
16 Hydref 2023 am 10am.